16 Ebrill 2010

CROESAWU EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD I ABERTAWE A'R FRO

Yn unol â'r traddodiad Eisteddfodol, bydd Abertawe a'r Fro yn croesawu Eisteddfod 2011 i'r ardal ddydd Sadwrn, 24ain o Ebrill gyda digwyddiad arbennig yng nghanol y ddinas.

Ychydig dros flwyddyn cyn i'r Eisteddfod ymweld â'r ardal, disgwylir I ganoedd o blant, pobl ifanc, athrawon, rhieni a chefnogwyr gyd-gerdded trwy ganol y ddinas cyn ymgasglu am jambori o ganu yn Sgwar y Castell.

Bydd yr orymdaith yn cychwyn o faes parcio'r LC2 am 11 y bore gyda'r dorf yn anelu am Sgwar y Castell erbyn 11.30. Yno, bydd y gantores Gwenda Owen yn arwain cefnogwyr a siopwyr, fel eu gilydd mewn gwledd o ganu gyda Sgrin Fawr y BBC yn gefnlen gwych i'r digwyddiad ac yn cynnig geiriau'r caneuon, i'r rhai sydd eu hangen.

Fel rhan o'r dathliadau yn Sgwar y Castell, bydd Dyfrig Ellis, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe a phrifathro Ysgol Lon Las yn cyflwyno'r copi cyntaf o restr testunau'r Eisteddfod i Carol Davies, Cadeirydd Urdd Gobaith Cymru.

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop yn ymweld ag Abertawe rhwng 30ain o Fai a'r 4ydd o Fehefin 2011. Mae union leoliad yr ŵyl i'w gadarnhau dros yr wythnosau nesaf ac fe ddisgwylir 100,000 o ymwelwyr a chystadleuwyr I fynychu'r digwyddiad, sy'n ddathliad o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

"Rydym yn gobeithio y bydd canoedd o gefnogwyr a dinasyddion Abertawe yn ymuno efo ni wrth i ni orymdeithio trwy ganol Abertawe a dathlu ar Sgwar y Castell," medd Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. "Bydd y digwyddiad ddydd Sadwrn yn blatfform gwych i lawnsio'r Eisteddfod a gaiff ei chynnal yn Abertawe y flwyddyn nesaf.

"Mae croeso cynnes iawn i bawb i'r digwyddiad – yn siaradwyr Cymraeg a'i peidio ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda trigolion Abertawe a'r fro dros y flwyddyn nesaf i sicrhau Eisteddfod gofiadwy iawn. Eisoes 'rydym wedi cydweithio gyda Cyngor y Ddinas a hoffwn ddiolch yn fawr iddynt am eu cymorth parod."

Diwedd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Non Tudur Williams ar nontudur@urdd.org neu 07968 446369

Amserlen Gŵyl y Cyhoeddi

10.30 – Ymgynnull ym maes parcio LC2

11.00 – Gorymdeithio trwy ddinas Abertawe I Sgwar y Castell

11.30 – Canu gyda Gwenda Owen yn Sgwar y Castell

13.00 – Perfformiad gan fand lleol, Yr Angen yn Sgwar y Castell

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, Eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd